



David Allen  
Cadeirydd  
Cyngor Cyllido Addysgu Uwch Cymru  
Tŷ Afon  
Heol Bedwas  
Bedwas  
Caerffili  
CF83 8WT

20 Mawrth 2019

[David.allen@hefcw.ac.uk](mailto:David.allen@hefcw.ac.uk)

Annwyl David,

### Cyflwyniad

1. Rwyf yn ysgrifennu atoch i nodi manylion fy nisgwyliadau, dyraniadau cyllido a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.
2. Hoffwn fynegi fy niolch i chi a'ch tîm am eich gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf a sut ydych wedi mynd ati i ddelio gyda rhai o'r heriau sydd wedi wynebu'r sector. Mae addysg uwch yng Nghymru yn ased lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae'n perthyn i holl bobl Cymru, mae'n hanfodol i'n ffyniant diwylliannol ac economaidd, ac yn rym er lles symudedd cymdeithasol a thrafodaeth ddemocrataidd.
3. Mae fy nghytundeb diweddar gyda'r Prif Weinidog yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth hon i arloesedd a radicaliaeth o ran polisi addysg ac rwy'n disgwyl i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) chwarae rôl bwysig wrth gefnogi'r uchelgeisiau a'r ymrwymladau hyn er mwyn i ni allu parhau i godi safonau ac ehangu cyfleoedd.

### Cyd-destun

4. Mae'r flwyddyn i ddod yn arwydd o gyfnod newydd. Gallai'r llythyr cylich hwn fod y cyntaf a anfonwn i'r Cyngor yn ymwneud â chyfnod pan na fydd y DU bellach yn aelod o'r UE. Bydd hyn yn esgor ar heriau ac yn ein gorfodi i chwilio am gyfleoedd newydd. Mae felly'n amser pwysig i ni gydweithio er mwyn hyrwyddo ymhellach addysg uwch Cymru ar lwyfan rhyngwladol, hyrwyddo partneriaethau gyda Llywodraethau a systemau addysg uwch eraill, nodi a datblygu meysydd ar gyfer cydweithredu mewn ymchwil a chreu cyfleoedd astudio i fyfyrwyr ac academyddion. Rwy'n awyddus sicrhau bod y pwylais newydd a roddir ar yr agwedd fyd-eang hon yn dod â manteision a chyfleoedd i gymunedau, diwydiant a'r sector addysg ehangach yma yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

5. Wrth i ni symud ymlaen gyda'n diwygiadau addysg, hyfforddiant ac ymchwil ôl-orfodol, hoffwn ddiolch i chi am eich ymateb manwl i'r ymgynghoriad technegol a'ch cyfraniadau i'r gweithdai technegol amrywiol a gynhaliwyd. Rydym wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac mae fy swyddogion yn parhau i ddatblygu'r meysydd polisi yng ngoleuni'r rhain.
6. Mae yna lawer iawn o waith pwysig i'w wneud i gynllunio a pharatoi ar gyfer gweithredu ein diwygiadau PCET ac rwy'n disgwyl i'r Cyngor a'i swyddogion barhau i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo. Hoffwn i ffocws paratodau'r Cyngor fod ar ddatblygu a chryfhau ymhellach fyth y berthynas rhwng addysg uwch a phellach a darparwyr prentisiaethau, gan weithio tuag at fwy o gysondeb rhwng y systemau a galluogi pontio esmwyth.
7. Yn nhermau eich perthynas yn y dyfodol, mae fy swyddogion yn gweithio gydag Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar ein dull o weithredu adroddiad ac argymhellion *Cyflawni gyda'n Gilydd*. Byddant yn ysgrifennu atoch ar wahân unwaith y bydd y trafodaethau hynny wedi dod i ben.

## Cyllid Addysg Uwch

8. Bydd y diwygiadau i gyllid myfyrwyr sy'n codi o Adolygiad Diamond yn cael eu gweithredu'n llawn yn y flwyddyn academaidd bresennol. Cymru yw'r wlad Ewropeaidd gyntaf i sicrhau cydraddoldeb o ran cymorth i fyfyrwyr ar draws pob math a lefel o astudiaeth addysg uwch. Mae'r ymagwedd unigryw hon yn creu cyfleoedd newydd i'r sector.
9. Rwyf yn falch fy mod wedi gallu gwireddu fy ymrwymiad i gynyddu arian i'r sector eto yn y flwyddyn ariannol hon yn ogystal â'r ymrwymladau ariannu a wnaed yn flaenorol. Ar ben dyraniad o £10m ar gyfer lliniaru ffioedd a chymorth ar gyfer astudio uwchraddedig, mwy o arian i ymestyn prentisiaethau gradd yng Nghymru, rwyf wedi gallu dyrannu mwy na £10m o arian ychwanegol i'r sector yn 2019-20. Mae rhagolygon presennol yn dangos bod goblygiadau rhagamcanol cyllideb CCAUC fel a ganlyn:

### Rhagamcaniadau cyllidebol CCAUC, yn ôl blwyddyn ariannol

|                                                   | 2018-<br>19  | 2019-<br>20  | 2020-<br>21  | 2021-<br>22  |
|---------------------------------------------------|--------------|--------------|--------------|--------------|
| <b>Rhagdybiaeth cynllunio refeniw</b>             | <b>£115m</b> | <b>£125m</b> | <b>£155m</b> | <b>£170m</b> |
| <b>Dyraniadau refeniw ychwanegol (ymrwymadau)</b> |              |              |              |              |
| Dechrau dwys i 2017-18 [1]                        | -£6m         |              |              |              |
| Cynllun bwrsariaeth dros dro i raddedigion        | £5m          | £5m          | £1m          |              |
| Cyllid i liniaru ffioedd dysgu                    | £5m          | £5m          |              |              |
| Prentisiaethau gradd Cymru Fyd-eang II            | £3m          | £5m<br>£1m   | £12m         |              |
| Llesiant, celfyddydau perfformio & ymchwil        | £8m          |              |              |              |
| <b>Cyfanswm cyllid refeniw</b>                    | <b>£130m</b> | <b>£141m</b> | <b>£168m</b> | <b>£170m</b> |
| Cyllid cyfalaf                                    | £12m         | £10m         | £10m         |              |
| <b>Cyfanswm rhagamcaniad cyllidebol</b>           | <b>£142m</b> | <b>£151m</b> | <b>£178m</b> | <b>£170m</b> |

10. Yn unol ag ymrwymiadau blaenorol, hoffwn i'r Cyngor flaenoriaethu arian ar gyfer ei Breimiwm Pynciau Drytach a dechrau cynllunio ar gyfer ehangu a gwella astudiaethau llawn-amser a rhan-amser.
11. Wrth iddo ystyried ei ddyraniadau ariannol yn y dyfodol, byddwn hefyd yn disgwyl i'r Cyngor ystyried argymhellion yr Arglwydd Murphy ynghylch arian ar gyfer Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (RWCMD).
12. Rwyf yn falch iawn bod y dystiolaeth gynnar yn awgrymu bod cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiau ar gyfer cyrsiau rhan-amser israddedig ac ôl-raddedig yng Nghymru. Bydd ein hymagwedd radical yn parhau i gyflawni ar symudedd cymdeithasol, ffyniant cenedlaethol a chyfleoedd i bawb. Mae'r diwygiadau yr wyf wedi'u cyflwyno yn briodol i'n myfyrwyr ac yn darparu sylfaen ar gyfer datblygiad pellach yn ein sefydliadau. Yng ngoleuni'r llwyddiant hwn, hoffwn i'r Cyngor weithio gyda fy swyddogion i sicrhau bod methodoleg o fewn eich fformiwla ariannu ar gyfer 2019/20 sy'n cydnabod y niferoedd uwch yn y meysydd hyn ac effaith hynny ar sefydliadau. Rwyf yn deall y bydd angen i chi roi sicrwydd i sefydliadau a byddwn yn ddiolchgar petaech yn gallu darparu adroddiad yn amlinellu amcangyfrif o gost gwireddu'r addasiad hwn cyn gynted ag y bo modd.
13. Yn fy natganiad ysgrifenedig dyddiedig 11 Mawrth, rhoddais gadarnhad fy mod wedi ychwanegu at y pecyn cymorth fydd ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig yn 2019/20. Fodd bynnag, mae'r datganiad hwn yn cadarnhau na allaf ehangu'r pecyn cymorth hwn i unigolion 60 oed a throsodd oherwydd cyfyngiadau Trysorlys ei Mawrhydi ar fenthyciadau i gyrsiau ôl-radd. Hoffwn i'r cyngor weithio gyda fy swyddogion i ystyried sut y gallaf ddarparu cymorth grant pellach i fyfyrwyr 60 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru ac sydd am astudio cyrsiau Meistr ôl-radd yn ystod y cyfnod academaidd nesaf.
14. Mae'r datganiad hwn hefyd yn cadarnhau yr hoffwn barhau i adeiladu ar lwyddiant ein sefydliadau o ran recriwtio a chadw myfyrwyr o Gymru sy'n astudio cyrsiau ôl-radd yn 2018/19. Rwyf yn ystyried sut y gallaf gynnig cymorth ychwanegol i'n sefydliadau fel y gallant barhau i gynnig cymhelliad i ddenu myfyrwyr mwyaf talentog Cymru, mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'n tri sector thematig cenedlaethol, fel y'u nodir yn y Cynllun Gweithredu Economaidd. Bydd fy swyddogion yn cysylltu â chi i drafod sut y gellir gwneud hyn.
15. Wrth i unigolion fuddsoddi mwy yn eu haddysg a'u datblygiad personol, ac wrth i'r sector ddechrau elwa ar lefelau cynyddol o arian, bydd disgwyliadau'n uwch ynghylch manteision y buddsoddiad hwnnw. Hoffwn i'r Cyngor, gan weithio gyda'r sector, ystyried sut y gall sicrhau bod sefydliadau'n fwy agored a thryloyw o ran sut y maent yn defnyddio incwm ffioedd. Trwy eu ffioedd dysgu, mae myfyrwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol i incwm sefydliadau, ac mae'n deg iddynt ddisgwyl i sefydliadau fod yn atebol o ran sut gaiff incwm ffioedd ei fuddsoddi er lles myfyrwyr, sefydliadau a'u cymunedau. Rwyf yn disgwyl i'r Cyngor barhau i fonitro lefelau ffioedd ar draws y sector ar gyfer darpariaeth israddedig ac ôl-radd er mwyn amddiffyn myfyrwyr rhag codiadau anghymesur a direswm i'w ffioedd.
16. Mae'n deg hefyd i fyfyrwyr ddisgwyl cael mynediad i wybodaeth ac arweiniad cywir i'w galluogi i wneud dewisiadau doeth ynghylch eu dysgu a'u datblygiad personol yn y dyfodol. Hoffwn i'r Cyngor ystyried a oes angen cryfhau'r trefniadau presennol er mwyn rhoi mwy o eglurder i fyfyrwyr a gwell mynediad i'r wybodaeth a ddarperir gan sefydliadau am y cyrsiau a gynigir, canlyniadau a chyrchfannau eu myfyrwyr a pha rai o'u cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau proffesiynol.

17. Mae'n rhaid i'n sefydliadau barhau i gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn gwerth am arian o'u hastudiaethau drwy ddarparu profiad dysgu ardderchog a sicrhau fod ganddynt y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer sicrhau cyflogaeth foddhaus a gwerthfawr ar ôl graddio a chyfrannu fel dinasyddion cyfrifol a gwybodus.

## **Cyllid Cyfalaf**

18. Mae'r dyraniad arian ar gyfer 2019-20 hefyd yn cynnwys £10m o gyllid cyfalaf, sef ail flwyddyn ymrwymiad tair blynedd i ddarparu arian i gefnogi sefydliadau i leihau eu risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'u hystadau a gwireddu arbedion wrth iddynt reoli eu hystadau a'u gweithrediadau.

## **Cyfathrebu**

19. Rydym yn ffodus yng Nghymru ein bod yn mwynhau perthynas weithio agos a chryf gyda'n sefydliadau. Yn fy amser fel Gweinidog, mae'r ymrwymiad i ystyried addysg uwch fel rhywbeth sydd er lles pawb, a chefnogaeth arweinwyr prifysgolion at gydweithio er lles blaenoriaethau cenedlaethol, wedi bod yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr. Mae cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru, y Cyngor a'r sector i bob pwrpas yn bositif a chynhyrchiol.

20. O gofio'r heriau cynyddol sy'n wynebu'r sector a'r angen i'r Llywodraeth, y Cyngor a'r sector allu ymateb a gweithredu'n gyflym mewn sefyllfaoedd sy'n datblygu, hoffwn i'r Cyngor ystyried, ar y cyd â'r sector, brotocol neu fframwaith ar gyfer ymdrin â chyfathrebu rhyngom. Byddai system o'r fath yn galluogi datblygiad diwylliant 'dim byd annisgwyl' a darparu gwybodaeth amserol i'r Llywodraeth a'r Cyngor, yn enwedig lle mae sefydliadau'n bwriadu gwneud cyhoeddiadau o bwys.

## **Brexit**

21. Bydd y sector yn parhau i wynebu heriau yn 2019-20 sy'n gwaethygu yn sgil yr ansicrwydd parhaus ynghylch ymadawiad y DU o'r UE.

22. Mae gadael yr UE a datblygu lle Cymru yn Ewrop a gweddill y byd yn thema a fydd yn rhedeg drwy lawer o waith y Cyngor eleni ac yn y blynyddoedd i ddod. Heb os, bydd yn gyfnod o gymhlethdod, newid a her sylweddol i'r sector, ond mae'n rhaid i ni hefyd barhau i adnabod a gwneud yn fawr o'r cyfleoedd a fydd sicr o godi. Gyda'n gilydd, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y sector mewn sefyllfa dda ac yn barod i fanteisio ar y cyfleoedd hyn wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt. Rwyf felly'n ddiolchgar i am gyfraniad gwerthfawr y sector, drwy Weithgor Brexit a rhwydweithiau eraill, gan obeithio y bydd y cydweithredu a'r cydweithio yn parhau. Hoffwn hefyd i'r Cyngor, ynghyd â'r sector, i ymdrechu i'r eithaf i archwilio p'un ai oes angen mesurau pellach ai peidio i sicrhau bod sefydliadau Cymru yn parhau i ddenu myfyrwyr rhyngwladol.

23. Mae'n holl bwysig bod y sector yn elwa ar unrhyw gronfeydd strwythurol ar gyfer seilwaith ac arloesedd sy'n disodli rhai blaenorol, a'i fod yn parhau i gael mynediad at gefnogaeth ar gyfer creu gwybodaeth ac ymchwil ac yn ehangu ei ddiddordebau, trefniadau cydweithredu a rhwydweithiau rhyngwladol.

## **Cyflogadwyedd Graddedigion a Chysylltiadau â Busnes**

24. Bydd gan sector PCET cydlynol, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gysylltiadau da gyda busnesau lleol i'w alluogi i ddeall anghenion sgiliau'r maes. Mae angen cydweithredu cryf rhwng Sefydliadau Addysg Uwch, a rhwng Sefydliadau Addysg Uwch, Sefydliadau Addysg Bellach a darparwyr eraill er mwyn ateb gofynion sgiliau lleol a disgwyladau

dysgwyr.

25. Mae ein cynlluniau ariannu entrepreneuriaeth wedi cymell sefydliadau i ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol, busnes, cyn-fyfrwyr a rhwydweithiau rhanbarthol i ddatblygu ecosystem entrepreneuriaid. Hoffwn i'r Cyngor annog sefydliadau i adeiladu ar eu gweithgareddau presennol i ddatblygu ymhellach ddiwylliant o entrepreneuriaeth o fewn y sector, ac i gyfrannu at yr agenda hon o fewn y sector ysgol.

26. Hoffwn hefyd i'r Cyngor weithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i ddatgan cyfleoedd ar gyfer addysg uwch sy'n adlewyrchu'n uniongyrchol anghenion y rhanbarthau yn unol â chlystyrau busnes, cyfleoedd seilwaith rhanbarthol a sectorau blaenoriaeth gwerth uchel.

## **Ymchwil o Safon**

27. Yn draddodiadol, mae'r Cyngor wedi cefnogi ymchwil gwreiddiol a chymhwysol, a hwnnw'n ymchwil rhagorol, drwy gyllid grant Ymchwil ac Ansawdd Da. Er bod rhaglen Sêr Cymru ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC yn dechrau mynd i'r afael â'r diffyg, erys pryderon ynghylch prinder cymharol ymchwilwyr STEM. Rwyf felly'n disgwyl i'r cyllid grant Ymchwil o Ansawdd Da barhau'n flaenoriaeth i'r Cyngor ac y bydd y cyfraniadau a wneir i raglenni presennol Sêr Cymru yn parhau fel y cynlluniwyd.

28. Wrth i'n diwygiadau wreiddio, rwyf yn rhagweld y bydd arian efallai ar gael ar gyfer ail-gyflwyno ysgoloriaethau ymchwil doethur. Hoffwn weld y Cyngor yn dechrau gwaith paratoadol i alluogi hyn ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

29. Mewn ymateb i Adolygiad Reid a'r galw ar sefydliadau Cymru i ymgysylltu'n fwy cydgysylltiedig a strategol â datblygiad polisi ymchwil ac arloesi a chyrrff ariannu ar lefel DU, hoffwn ddatblygu ymagwedd fwy cydlynol a chydgyssylltiedig rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wrth ymgysylltu â chyrrff ariannu Ymchwil ac Arloesi tu allan i Gymru. Hoffwn hefyd i'r Cyngor ystyried mesurau gweithredol y gallwn eu cymryd ar y cyd i gynyddu cynrychiolaeth ar gyrrff ariannu Ymchwil ac Arloesi'r DU.

30. Rwyf yn falch o'r cynnydd a wneir gan sefydliadau yng Nghymru i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodir yn adroddiad *Menywod Talentog ar gyfer Cymru Lwyddiannus*. Hoffwn weld y Cyngor yn parhau i gefnogi ac annog Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn rhagweithiol wrth iddynt ymateb i argymhellion yr adroddiad a'r Bwrdd Menywod mewn STEM a'i is-grwpiau ar eu gwaith a'u hymdrechion i wella cydraddoldeb rhwng y ddau ryw o ran STEM yng Nghymru a chynorthwyo gyda thryloywder adrodd ar gynnydd a chyflawniadau.

31. Hoffwn annog y Cyngor i ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael iddo gyda phrifysgolion i hyrwyddo mwy o ymgysylltiad prifysgol-ysgol drwy gefnogi adeiladu gallu ymchwil a chydweithrediadau ag ysgolion mewn ymchwil addysgol, er mwyn ateb anghenion ysgolion a rhanddeiliaid addysg yng nghyd-destun rhoi ymchwil addysgol ar waith.

32. Mae gan ymchwil gan brifysgolion gyfraniad pwysig i'w wneud i flaenoriaethau cymdeithasol ac addysgol Cymru. Mae Cenhadaeth ein Cenedl yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer diwygio ac mae rôl ymchwil o fewn hyn wedi'i diffinio'n glir. Hoffwn i'r Cyngor annog prifysgolion i barhau i ddatblygu eu hymchwil addysgol.

## **Llesiant Myfyrwyr**

33. Mae'r cynnydd o ran salwch meddwl ymhlith ein pobl ifanc yn achos gofid ac rwyf yn falch gweld y camau sy'n cael eu cymryd gan y sector, y Cyngor, Prifysgolion Cymru a NUS

Cymru, gan weithio ag elusennau iechyd amlwg ac asiantaethau eraill, i wella'r cymorth a'r gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr yn ystod eu hamser yn y brifysgol. Mae ymagwedd 'system gyfan' Cymru at iechyd meddwl a llesiant drwy'r fframwaith prifysgolion iach yn arwain y sector o fewn y DU. Hoffwn i'r Cyngor barhau i flaenoriaethu gweithgaredd diogelu a llesiant i fyfyrwyr a staff a chynnal cysylltiad gyda fy swyddogion wrth i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen. Edrychaf ymlaen at weld ymagwedd strategol y Cyngor at lesiant ac iechyd meddwl a'r cynlluniau gweithredu sy'n sail i hynny; bydd y cyntaf yn ymwneud â chefnogi iechyd meddwl myfyrwyr. Ymhellach, hoffwn i'r Cyngor weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ymagwedd at atal hunanladdiad mewn prifysgolion.

34. Yn dilyn cyflwyno Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), hoffwn i'r Cyngor weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar ddatblygu a chyflwyno canllawiau i'r sector ynghylch sut all sefydliadau yng Nghymru gyfrannu at weithrediad y Ddeddf.

## **Ansawdd**

35. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae rhai adroddiadau yn y cyfryngau wedi cwestiynu uniondeb y system addysg uwch yn y DU. Rwyf yn cydnabod ymdrech sefydliadau i lunio mesurau i fynd i'r afael â'r materion hyn, ond mae'n briodol cael sicrwydd pellach o ran sut mae addysg uwch yng Nghymru yn cyflawni darpariaeth safonol, yn cynnal safonau ac yn cynnal ei enw da ar lwyfan byd-eang.

36. Rwyf yn deall bod y Cyngor yn monitro Sefydliadau Addysg Uwch Cymru i sicrhau bod gwybodaeth ar achrediad proffesiynol cyrsiau gradd yn gyson â'r gofynion rheoliadol, yn gyfoes ac ar gael yn rhwydd i fyfyrwyr. Hoffwn i'r Cyngor ystyried a oes angen cryfhau'r trefniadau monitro hyn.

37. Rwyf yn cydnabod mai mater i sefydliadau unigol yw dosbarthu a dyfarnu graddau, ond ni all chwyddo graddau fod yn llesol i fyfyrwyr os nad yw'n adlewyrchiad teg o'u cyflawniadau. Mae chwyddo graddau yn fater ar gyfer y DU i gyd, a byddai'n well i'r pedair cenedl fynd i'r afael â'r mater gyda'i gilydd. Byddwn yn disgwyl i'r Cyngor edrych ar hyn yn fanwl ac ystyried sut orau i weithio gyda gwledydd eraill y DU.

38. Mae'r QAA yn edrych ar broblem twyllo ar gcontract a'r defnydd o felinau traethodau ar lefel pedair cenedl. Wrth i'r gwaith hwn ddatblygu, efallai y bydd yn ofynnol i fi ofyn i'r Cyngor edrych ar y mater hwn yn fanylach. Yn y cyfamser, dylai'r Cyngor sicrhau bod gweithgareddau sicrhau ansawdd yn ystyried y materion hyn er mwyn sicrhau uniondeb academiaidd darpariaeth addysg uwch yn Nghymru.

39. Hoffwn i'r Cyngor ddarparu adroddiad ar y materion a nodwyd uchod, er mwyn i fi gael gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa ac i sicrhau bod yr holl gyrff perthnasol yn cymryd y mater o ddifrif.

## **Cyfrwng Cymraeg**

40. Mae Cymraeg 2050, Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, yn gosod y targed uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Bydd gan addysg a hyfforddiant ôl-orfodol rôl allweddol i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y targed yn cael ei gyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi'r sector addysg uwch i ddatblygu ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu nifer y myfyrwyr sy'n dewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

41. Mae fy Nghytundeb gyda'r Prif Weinidog yn cynnwys ymrwymiad i weithio gyda'r Coleg a phartneriaid eraill i wella darpariaeth sgiliau, cyrsiau galwedigaethol a'r gwaith o hyrwyddo

cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn unol â strategaeth Cymraeg 2050. Rwyf yn disgwyl i'r Cyngor gefnogi amcanion Cymraeg 2050 a gweithio'r Coleg i gyflawni'r nod hwn. Mae gosod targedau i sefydliadau unigol yn elfen hanfodol er mwyn sicrhau fod pob un yn cyfrannu at ddatblygiad darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol, ac rwyf yn disgwyl i'r Cyngor gytuno ar dargedau cyfrwng Cymraeg mewn partneriaeth â'r Coleg.

## **Cenhadaeth Ddinesig**

42. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r her a osodais pan ymunais â'r llywodraeth, sef y dylai ein sector addysg uwch ailafael mewn ymdeimlad o genhadaeth ddinesig. Mae'n dda gennyf nodi bod llawer o gynnydd wedi'i wneud. Yn ddiweddar, mae rhannau eraill o'r DU wedi dilyn ein harweiniad ar y mater hwn. Rydym wedi gosod yr agenda yn hyn o beth, ond mae'n rhaid i ni bellach anelu i fod yn un o'r gorau yn y byd o ran sut mae prifysgolion yn gweithredu fel stiwardiaid lle.

43. Roedd cyhoeddiad CCAUC "*Torri Tir Newydd: Ar Dir Cyffredin*" yn nodi sut mae darparwyr addysg uwch wedi bod yn arfer eu cenhadaeth ddinesig, gan ymgysylltu'n lleol i ddatblygu eu partneriaethau o fewn ac ar draws cymunedau, gan helpu i godi safonau ac ysgogi ymgysylltiad dinesig. Mae gan y Cyngor rôl bwysig i'w chwarae, gan gynnig cefnogaeth ac anogaeth briodol i sefydliadau Cymru, i ddatblygu'r sector fel arweinydd bydeang mewn ymgysylltiad dinesig, a hyrwyddo arfer da. Wrth gydweithio'n strategol ac ar draws y rhanbarthau, gyda busnesau a sefydliadau ac awdurdodau eraill, dylai sefydliadau nodi sut all eu hymrwymiad sicrhau bod eu hymgysylltiad dinesig yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

44. Byddaf cyn hir yn gweithredu fy ymrwymiad gyda'r Prif Weinidog i "edrych ar sut y gallwn ddatblygu hawl newydd yng Nghymru i addysg gydol oes". Rwyf yn disgwyl i'r CCAUC weithio gyda'r sector i gipio, herio a hyrwyddo rôl prifysgolion mewn perthynas ag addysg oedolion wedi'i gwreiddio'n lleol, addysg gymunedol ac addysg gydol oes.

45. Mae ein pedair thema allweddol ar gyfer cysylltu campws, cymuned a'r byd yn parhau: Lle sy'n Arwain; Cysylltiadau ag ysgolion; Dinasyddiaeth weithredol; a Menter ac Arloesedd Cymdeithasol. Rwyf yn hyderus bod y rhain yn darparu digon o gyfeiriad strategol, ond eto i gyd yn caniatáu arloesedd gan y sector a sefydliadau, ar gyfer parhau â'r agenda bwysig hon.

## **Tegwch a Chydraddoldeb**

46. Mae'r gwaith a wnaed hyd yma o fewn y sector i hyrwyddo ymagwedd fwy agored at gyflogau uwch, i fynd i'r afael â materion ynghylch cydraddoldeb i staff a myfyrwyr, i hyrwyddo sector cyflog byw ac ymagwedd fwy moesegol at gaffael yn galondid i mi. Mae anghydraddoldeb cyflog ar sail rhyw yn parhau i fod yn broblem mewn rhannau o'r sector ac rwyf yn disgwyl i'r Cyngor weithredu i sicrhau bod camau i fynd i'r afael â hyn yn cael eu blaenoriaethu.

47. Rwyf hefyd yn disgwyl derbyn cadarnhad eleni bod holl brifysgolion Cymru wedi derbyn achrediad llawn fel cyflogwyr Cyflog Byw. Byddwn yn croesawu diweddariad gan CCAUC ar y mater hwn, yn gynnar yn 2019/20.

## **Newid yn yr Hinsawdd a Datgarboneiddio**

48. Yn 2017, bu inni gyhoeddi ymrwymiad at sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Mae gan sefydliadau addysg uwch ran arweiniol bwysig i'w chwarae o ran

effaith eu gweithgareddau ar eu staff, myfyrwyr a'r gymuned leol a dylanwad arferion prynu ar gadwyni cyflenwi yng Nghymru. Mae yna hefyd botensial aruthrol i'r sector wneud cyfraniad sylweddol yn y maes hwn drwy ymchwil a chydweithrediad â busnes a diwydiant. I'r perwyl hwn, rwy'n annog prifysgolion Cymru i ymuno'n wirfoddol â'n Cyrff Cyhoeddus yn ein hymdrechion i sicrhau niwtraliaeth garbon erbyn 2030 a sbarduno'r manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol yr wyf yn gwybod eu bod yn bosibl.

49. Mae ein tystiolaeth yn pwyntio at nifer o feysydd gweithredu allweddol os ydym am sicrhau niwtraliaeth garbon – y ffordd y byddwn yn adeiladu, rheoli a defnyddio ein hadeiladau; ein strategaethau trafniadaeth a symudedd; sut ydym yn rheoli ein tir; a sut ydym yn caffael nwyddau a gwasanaethu. Mae sefydliadau eisoes yn gweithredu i leihau eu heffaith ar draws rhai o'r meysydd hyn, ond mae angen i ni gynyddu lled a dyfnder y gweithredu, a gweithio ar draws ffiniau sefydliadau, os ydym am sicrhau niwtraliaeth garbon.

50. Bydd ein rhaglen ddatgarboneiddio yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiaidau i liniaru newid yn yr hinsawdd, eto i gyd, mae bygythiad newid yn yr hinsawdd o allyriadau nwyau tŷ gwydr y presennol a'r gorffennol wedi arwain at wireddu cynhesu byd eang. Mae'r risgiau i Gymru, a'r 32 o gamau gweithredu ymaddasu y gallwn eu cymryd i ymateb iddynt, wedi'u hamlinellu yn ein Cynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd drafft. Byddwn yn annog y Cyngor a'r sector i ystyried pa gamau y gall eu cymryd i addasu a magu cydnheredd yn wyneb yr effeithiau hyn.


### **Blaenoriaethau Parhaus ac Adrodd**

51. Bydd y blaenoriaethau a nodir yn y llythyr hwn yn llywio datblygiad Cynllun Gweithredol y Cyngor ar gyfer 2019-20, ac rwyf yn edrych ymlaen at dderbyn y cynllun hwn erbyn diwedd mis Mehefin 2019. Bydd swyddogion yn parhau i fonitro perfformiad yn erbyn y Cynllun Gweithredol yn chwarterol, ond ymhellach, hoffwn i'r Cyngor adrodd i fi erbyn diwedd mis Mai 2020 ar gynnydd yn erbyn y gweithgareddau penodol a nodir yn y llythyr hwn.

### **Amodau a osodir ar y grant a wneir i CCAUC**

52. Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion o'r cyllid a ddyrennir i CCAUC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. O dan adran 68 o Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992, mae Gweinidogion Cymru, drwy'r llythyr hwn, yn gosod telerau ac amodau ar y grant a wneir i CCAUC fel y nodir yn Atodiad 2 i'r llythyr hwn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**  
Y Gweinidog Addysg  
Minister for Education



## Atodiad 1

Mae manylion dyraniadau ar gyfer Llinellau Gwariant Cyllideb CCAUC ar gyfer 2019-20 wedi'u nodi isod (£s):

|                        | 2019-20     |
|------------------------|-------------|
| Gwariant Refeniw CCAUC | 141,052,000 |
| Dibrisiant CCAUC       | 90,000      |
| Gwariant Cyfalaf CCAUC | 10,000,000  |
| Cyfanswm               | 151,142,000 |

Mae gwariant refeniw CCAUC yn gyfuniad o'r llinellau cyllidebol canlynol a oedd ar waith cyn 2017-18:

- Er Mwyn Ein Dyfodol;
- costau rhedeg CCAUC; a
- derbyniadau CCAUC.

Y Cyngor sydd bellach yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar lefel y cyllid a ddyrennir i bob llinell gwariant. Fodd bynnag, ar ddechrau bob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i CCAUC ddarparu amcangyfrif i Lywodraeth Cymru o'u costau rhedeg ar gyfer y flwyddyn ac amcangyfrif o'r derbyniadau y mae'n disgwyl eu derbyn yn ystod y flwyddyn. Bydd angen i unrhyw ddiffygion yn y derbyniadau a ddisgwylir cael eu rheoli o fewn dyraniad cyllidebol cyffredinol CCAUC, oni bai y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gyda Llywodraeth Cymru. Mae Llinell Gwariant Refeniw CCAUC yn cynnwys y dyraniadau ychwanegol canlynol:

- £5m i helpu i liniaru effaith y penderfyniad i rewi lefelau uchaf ffioedd dysgu;
- £5m i gefnogi cynllun i annog astudio ôl-radd yng Nghymru;
- £5m i ymestyn prentisiaethau gradd yng Nghymru;

Ymhellach, rwyf wedi cymeradwyo dyraniad pellach o £104.5k i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni ail gam WHEELP. Caiff yr arian hwn ei ddyrannu i Gyllideb Gwariant Refeniw CCAUC adeg y Gyllideb Atodol gyntaf.

Gwnaethpwyd darpariaeth o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer dyrannu adnodd cyfalaf £10m yn 2019-20 i gefnogi cynigion gan sefydliadau sy'n hyrwyddo defnydd mwy effeithiol o'u hystadau.

## **Atodiad 2**

### **Amodau'r Grant**

Bydd CCAUC yn cydymffurfio â thelerau'r Ddogfen Fframwaith y cytunwyd arno gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru, dyddiedig Medi 2014 neu unrhyw ddogfen arall y gall Llywodraeth Cymru ei chyflwyno i CCAUC o bryd i'w gilydd.

### **Amod y Grant ar Gydlyniant Rhanbarthol**

Wrth arfer ei swyddogaethau i ddyrannu cyllid i'r rheini sy'n darparu addysg uwch, mae'n rhaid i CCAUC roi sylw i gydlyniant rhanbarthol.